# Cylchlythyr

Rhifyn y Gaeaf 2007

# GISDA

CYNNWYS


| | |
|---|---|
| *Gair gan y bos* | 2 |
| *Adnoddau Dynol* | 2 |
| *Cyfarchion yr Ŵyl* | 2 |
| *Theatr Fforwm* | 3 |
| *Gweithio gyda'n gilydd* | 3 |
| *Y Cynlluniau* | 4 |


## Dyddiad i'ch dyddiadur

**13 Rhagfyr, 2007**
Sesiwn Adeiladu Tîm
A Chinio Nadolig
Gwesty'r Anglesey Arms
Porthaethwy

Sesiwn Bore - Tim Rheoli
Sesiwn Prynhawn -
Adran y
Prif Weithredwr

Croeso i Aelodau'r Bwrdd Rheoli

## Cysylltwch â ni


Tŷ Rhydalun
Penrallt Uchaf
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1PR
☏ 01286 671153
gisda@gisda.co.uk

Rhifyn nesaf — Gwanwyn 2008

# Blwyddyn Brysur Arall

Mae hi wedi bod yn flwyddyn hynod o brysur i GISDA ac roedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yng Nghanolfan Bro Llanwnda yn gyfle i adlewyrchu ar y datblygiadau a fu ers y gweithgareddau un mlynedd ar hugain llynedd. Roedd y pwyslais ar edrych i'r dyfodol a pharhau i godi proffil a datblygu delwedd bositif y cwmni.

Cam pwysig iawn yn hyn o beth oedd lansio ein gwefan newydd. Wedi ymgynghori gyda chwmni Delwedd penderfynwyd cynnwys dwy gangen o fewn y safle, un wedi ei anelu ar gyfer pobl ifanc sy'n chwilio am gefnogaeth a gwybodaeth a'r llall ar gyfer sefydliadau a busnesau eraill.

Yn ôl Meic Roberts o Delwedd "ein nod wrth ddylunio'r wefan oedd creu safle fyddai'n syml a chyfeillgar i'r defnyddwyr ond eto yn ddiddorol a deinamig ac yn hyrwyddo delwedd fodern broffesiynol GISDA". Mae'r defnydd o'r dechnoleg ddiweddaraf yn golygu y gall y defnyddiwr ryngweithio gyda'r cymeriad animeiddio sydd ar y Wefan Helpu. Ond yn bwysicach na dim ma'r wybodaeth yn hawdd i'w ddarganfod ac yn hygyrch a diogel i bawb.

**Tudalen o wefan newydd GISDA**

Blwyddyn yn ôl plannwyd egin arall pan awgrymodd Karen Owen, beirniad a golygydd y cylchgrawn Golwg, bod gwaith y disgyblion a gymrodd ran yn y gystadleuaeth ysgrifennu ar gyfer y dathliadau 21 yn haeddu cael gweld eu gwaith mewn print. Ffrwyth y llafur hwnnw yw'r llyfr Geiriau sydd wedi ei ddosbarthu i bob ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghymru a phob coleg a llyfrgell yng Ngwynedd. Ni fuasem wedi gallu gofyn am ymateb gwell gydag ambell i ysgol yn cysylltu i ofyn am gopïau ychwanegol i'w defnyddio fel rhan o'u cwricwlwm.

**Llyfr 'Geiriau'**

Dros y flwyddyn mae partneriaethau a pherthnasau gwaith newydd wedi eu creu rhwng GISDA a mudiadau eraill sy'n galluogi i'r cwmni gynnig gwasanaeth mwy cyflawn a chynhwysfawr. I gyd-fynd â'r datblygiadau sydd ar droed mae GISDA wedi diweddaru a diwygio eu nod ac amcanion er mwyn medru ehangu ein gwasanaeth o ran ystod oed a daearyddiaeth.

Yn ara' deg mae dal iâr medda nhw ac wrth gwrs mae'r gwaith yn parhau. Ond mae'r datblygiadau sydd wedi bod yn ystod y flwyddyn yn rhai arwyddocaol fydd, gobeithio, yn arwain i flwyddyn newydd lwyddiannus. Am fwy o wybodaeth am GISDA syrffiwch draw i www.gisda.co.uk

## GAIR GAN Y BOS

Wrth edrych yn ôl dros 2007 gwelwn nifer o ddatblygiadau cyffrous yn ystod y flwyddyn. Bu criw'r Theatr Fforwm yn perfformio mewn ysgolion a cholegau lleol, yn y Cynulliad ac mewn cynadleddau ac ati. Mae'r wefan newydd llawer gwell ar gyfer tynnu sylw at waith GISDA ac yn sicr yn fwy deniadol i'r ifanc gyda linc iddi o wefan y BBC dros gyfnod y Nadolig. Bydd y strwythur staffio newydd hefyd yn sicrhau gwasanaeth gwell a llawer mwy cynhwysfawr i ddefnyddwyr ein gwasanaeth.

Hoffwn ddiolch i unigolion ac asiantaethau am eu parodrwydd i'n cefnogi i gynnig gwasanaeth gwerth chweil, ac i staff y cwmni am eu gweithgarwch a'u hymroddiad. Diolch hefyd i fy nghyd aelodau ar y Tîm Rheoli ac aelodau'r Bwrdd Rheoli am eu gwasanaeth a'u cefnogaeth.

Llongyfarchiadau mawr i Meilys (Aelod o'r Bwrdd) a Lawrence ei gŵr, ar enedigaeth Deian Heulfryn. Yn dilyn ei ymweliad diweddar, mae Deian eisoes yn aelod gweithgar o'r Bwrdd Rheoli!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Mair
Prif Weithredwr

Bydd Jan a Sophie yn cymryd rhan yn Ras Santa yn Llandudno ar 02/12/07. Byddant yn casglu arian i Ty Gobaith. Os hoffech noddi, cysylltwch gydag un o'r ddwy. Pob lwc I chi!

# NEWYDDION ADNODDAU DYNOL

**Staff**
Mae wynebau newydd yn gweithio i'r Cwmni. Mae rhai ohonoch yn gyfarwydd â dwy ohonynt, sef Gwyneth Maycox sydd wedi bod yn gweithio yn y Cynllun Teulu dros dro, a Camillia Williams (Caj) sydd wedi bod yn helpu allan yng Nghynllun De Gwynedd dros dro. Mae Sonia Collis wedi cael cytundeb dros dro gyda Chynllun De Gwynedd.

Croeso i Alaw Rowlands sydd wedi cychwyn fel Swyddog Cynorhwyol i Mair dros gyfnod mamolaeth Siân.

Mae Osian wedi ei benodi'n barhaol i'r swydd Rheolwr Tîm De Gwynedd, ac mae Eurwen Williams wedi cael cynnig swydd llawn amser parhaol yng Nghynllun Gogledd Gwynedd. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch.

Bydd dau aelod arall yn ymuno â'r Cwmni ym mis Rhagfyr, Melanie Phillips fel Rheolwr Cyfeiriadau a Wil Parry fel Uwch Swyddog Llwybr Llwyddiant.

Mae dwy wedi cyfnewid swyddi. Mae Iola Hughes bellach yn Reolwr ar y Cynllun Teulu, a Glenys Morgan yn Reolwr ar Gynllun Gogledd Gwynedd.

Mae Eirwen Khan yn dychwelyd fel Gweithiwr Allweddol ar ôl cyfnod gyda Llwybr Llwyddiant.

**Swyddi Gwag**
Mae swyddi gwag yn y cynlluniau fel a ganlyn: Gweithiwr Allweddol llawn amser yng Nghynllun De Gwynedd, Cynllun Gogledd Gwynedd ac yn y Cynllun Teulu; Dirprwy i'r Pennaeth Gwasanaethau a Swyddog Cyllid.

**Staff yn gadael**
Mae Yasmin wedi cael swydd gyda'r Chyngor Gwynedd ac yn gorffen gyda ni ddiwedd Tachwedd ac mae Ameina wedi cael swydd gyda NACRO. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy a gobeithio y byddant yn hapus yn eu swyddi newydd. Bydd pawb yn Gisda yn teimlo colled mawr ar eu hôl. Llongyfarchiadau, hefyd, i Yasmin ar ei llwyddiant yn ei arholiadau yn ddiweddar.

Mae Siân yn ein gadael dros dro gan ei bod yn dechrau ar ei chyfnod mamolaeth ar Dachwedd 23. Edrychwn ymlaen am y newyddion.

**Hyfforddiant:**
**Rhaglen Hyfforddiant**
Mae cyfres o gyrsiau gan Christine Uden bellach wedi cychwyn ac mae'r sesiynau hyd yn hyn yn mynd yn dda iawn. Gobeithio erbyn diwedd y rhaglen y bydd staff y Cwmni wedi eu harfogi gydag amrywiaeth o wybodaeth gwerthfawr a defnyddiol.

**Cyrsiau Coleg:**
Pob lwc i Wendi ar ei chwrs MA Mewn Cwnsela gyda Choleg Caer.

**NVQs**
Llongyfarchiadau i Sophie sydd wedi ennill cymhwyster nvq 3 mewn Gofal yn ddiweddar.
Mae Jen Parry a Nerys Beech bellach bron â chwblhau eu cwrs nvq 3 mewn gofal - gewch chi roi eich traed i fyny am dipyn wedyn!

**Buddsoddwyr Mewn Pobl**
Bydd y Cwmni yn cael adolygiad Buddsoddwyr Mewn Pobl ddechrau Chwefror. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei ddosbarthu i bawb yn fuan.

**Adeiladu Tîm**
Gan nad ydym wedi cael sesiwn adeiladu tîm ers sbel, mae staff Adran y Prif Weithredwr yn trefnu sesiwn efo Cinio 'Dolig ar 13/12/07

# CYFARCHION YR ŴYL

Gwerthfawrogir pob ymdrech dros adeg y Nadolig i ddod a gwên i wyneb pobol o bob oed. Ond gwerthfawrogir yn fwy yr ymdrech sy'n digwydd drwy'r flwyddyn i roi cysur, cyfle a gobaith i eraill.

Un nod gan GISDA yw cefnogi pobl ifanc i fyw'n annibynnol. Diolch i holl weithwyr Gisda am eich gwaith i geisio sicrhau'r nod hwn yn ystod y flwyddyn. Dymunaf dangnefedd y Baban Iesu i chwi dros yr ŵyl eleni.

**Gan Ron Williams (Cadeirydd) a gweddill y Bwrdd Rheoli**

Diolch i bawb am eu gwaith caled drwy'r flwyddyn.
Nadolig Llawen a phob dymuniad da i staff, defnyddwyr ein gwasanaeth, aelodau'r Bwrdd a phartneriaid yn 2008
**Gan y Tîm Rheoli**

# Theatr Fforwm

Yn dilyn perfformiad hynod lwyddiannus gan griw y theatr fforwm yn y Cyfarfod Blynyddol, estynwyd gwahoddiad iddynt berfformio yng nghynhadledd dathliadau 21ain Llamau yng Nghaerdydd. Sefydliad tebyg iawn i GISDA yw Llamau sydd yn gweithio yn Ne Cymru, cliciwch ar y wefan am fwy o wybodaeth - www.llamau.co.uk

Pump o bobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y ddrama a themâu'r theatr oedd bwlio, trais yn y cartref a chyffuriau. Ychydig yn swil oedd y gynulleidfa ar y cychwyn ond fe gafwyd ymateb positif erbyn y diwedd. Unwaith eto roedd amser yn ein trechu, ond rhoddwyd gwahoddiad i'r theatr ddychwelyd i Llamau cyn ddiwedd y flwyddyn. Fe wnaeth yr holl griw fwynhau'r profiad yn arw.

Yn ogystal â pherfformio, cafwyd amser i ymweld â Stadiwm y Mileniwm a chafodd pawb lond bol o fwyd mewn bwyty sieiniaidd "all you can eat" lawr ym Mae Caerdydd.

Hoffai GISDA ddiolch i Kyle, Michelle, Callum, Billy, Ashley a Richard am eu hymroddiad i'r theatr.

Ym mis Hydref, fe aeth Osian i gynhadledd flynyddol Drymiau dros Heddwch. Mae'n siwr fod yr enw'n canu cloch i rhan helaeth o staff GISDA gan i rai o'n pobl ifanc fynychu cyfnewidfa ieuenctid Drymiau dros Heddwch yn Nenmarc yn 2006. Mudiad ydyw sy'n defnyddio pŵer trawsffurfiol y celfyddydau i feithrin cymuned er mwyn creu byd gwell. Maent yn dod a phobl ifanc, gweithwyr ieuenctid ac artistiaid o wahanol wledydd at ei gilydd ac yn defnyddio'r celfyddydau creadigol er mwyn cysylltu gyda phobl ifanc.

Y gobaith oedd mynd a chriw'r theatr fforwm i berfformio, ond yn anffodus oherwydd diffyg amser nid oedd hyn yn bosibl. Efallai cawn gyfle y tro nesaf. Ond, rhaid dweud bod y gynhadledd wedi bod o fudd. Y gobaith yn awr yw y cawn gyfle i fynd a chriw theatr fforwm GISDA ar gyfnewidfa yn Ewrop yn 2008 (gyda lwc efallai cawn gyfle i fynychu mwy nag un). Am fwy o wybodaeth am y cyfle gwych yma, mae'n bosib ymweld â'r safle www.drumsforpeace-network.org/

# Gweithio gyda'n gilydd

**Enw?**
Ann Jones
**Swydd?**
Cydlynydd Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)
**Beth yw NYAS?**
Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol sy'n cyd-weithio â phlant a phobl ifanc 0-25oed. Mae NYAS yn wasanaeth cenedlaethol.
**Ers faint ydych chi wedi bod yn gweithio hefo NYAS?**
Ers Ionawr '07.

**Sut mae NYAS yn cydweithio gyda GISDA?**
Mae NYAS yn gweithio gyda GISDA trwy gynnig gwasanaeth eiriolaeth annibynnol pan fo'r angen, ac yn aml yn cyfeirio pobl ifanc at wasanaeth GISDA.
**Pa fath o weithgareddau sy'n cymryd lle ?**
Yn ogystal a chynnig gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc, fel cydlynydd NYAS, rwyf hefyd yn rhedeg llinell gymorth i blant a phobl ifanc. Mae'n rhoi cymorth drwy decst neu sgwrs gyfrinachol ar y ffôn.
**Beth yw eich profiad mwyaf cofiadwy?**
Mae gen i lawer o brofiadau cofiadwy, ond yn aml iawn mae'r atgofion gorau yn dod o weld plentyn neu berson ifanc yn datblygu ei hunan hyder ac yn gallu eirioli drosto ei hun.
**Gyda pha asiantaethau eraill mae NYAS yn gweithio?**
Mae NYAS yn cyd-weithio â phob math o asiantaethau yng Ngwynedd i gynnig cymorth a chefnogaeth i bobl ifanc mewn pob math o sefyllfa.

# Darllediad Elusennol

Fel rhan o ymgyrch y BBC i ddwyn ymwybyddiaeth i elusennau arbennig, mae GISDA wedi ei ddewis ar gyfer darllediad elusennol ar y we.

Bydd y darllediad yn ymddangos ar wefan y BBC o ddiwedd Tachwedd hyd at y flwyddyn newydd. Fel y gwyddom, gall yr adeg yma o'r flwyddyn fod yn amser anodd i deuluoedd gyda'r Nadolig yn rhoi pwysau ychwanegol ar sefyllfaoedd bregus, felly rydym yn teimlo fod amseriad y darllediad yn addas iawn i gwmni fel GISDA.

Mae hyn yn gyffrous iawn i ni gan ei fod yn golygu y bydd rhwng 1000 a 10,000 o bobl yn clywed am GISDA dros gyfnod y darllediad. Mae'n gyfle gwych i estyn llaw i bobl ifanc ac i godi proffeil y cwmni.

Dywedodd Paul Elliot, ar ran y BBC, mai ei obaith ef yw y bydd y darllediad yn "codi ymwybyddiaeth o'r gwaith y mae GISDA'n ei wneud yng Ngwynedd a'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig i bobl ifanc wrth eu cefnogi i fyw'n annibynnol"

Bydd cysylltiad i wefan GISDA yn cael ei roi yn y darllediad.

I weld drosoch eich hun ewch ar wefan y BBC sef **bbc.co.uk/elusennau**

## Yn y Gegin

**Cawl Butternut Squash**

Cynhwysion

Tua ½ llwy fwrdd o fenyn
Tua ½ llwy fwrdd o olew
1 nionyn wedi'i dorri fân
1 moron, wedi'i dorri'n fân
1 coes seleri wedi'i dorri'n fân
1 afal gwyrdd wedi'i bilio, a'i dorri'n fân heb y canol
1 butternut squash wedi'i bilio a'i dorri'n fân heb yr hadau
4 cwpanaid o stoc cyw iâr
Mymryn o halen a phupur

Dull

1. Cynhesu'r olew a'r menyn ac ychwanegu'r nionyn, moron a'r seleri a'u cogion am tua 5 munud, nes yn feddal.
2. Ychwanegu'r butternut squash, afal, stoc cyw iar, halen a phupur a'u berwi'n ysgafn nes fo'r butternut squash yn feddal.
3. Os yw'r darnau'n fawr, bydd hyn yn cymryd tua 30 munud.
4. Rhowch y cawl mewn cymysgydd trydanol, neu defnyddiwch declyn sdwnshio tatws i gymysgu'r cawl.
5. Mae'n barod i'w fwyta



# Newyddion o'r Cynlluniau

**Prince's Trust**

Bu i grŵp o bobl ifanc o GISDA gymryd rhan mewn cwrs datblygiad personol dros 12 wythnos gyda'r Prince's Trust. Un agwedd o'r cwrs oedd prosiect garddio lle bu iddynt ymgymryd â'r dasg anferth o ail ddylunio gardd Hafan.

**Prosiect Gardd Hafan**

Dywedodd Kerry Yale, arweinydd tîm gyda'r Prince Trust: "Rhaglen i dîm rhwng 16 a 25 yng Nghaernarfon yw hwn. Mae ganddynt rota i weithio iddi ac mi fyddant yn gwneud patch llysiau, lle graean, mainc gysgodol a phlannu coed ffrwythau".

Ychwanegodd: "Nid ydym wedi derbyn unrhyw arian felly rydym yn ddibynnol ar roddion ac mae nifer o fusnesau lleol wedi ein helpu"

Nod y Prince's Trust yw helpu pobl ifanc sydd wedi cael amser caled yn yr ysgol neu wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir. Mi fydd y sgiliau mae nhw'n fagu yn ystod y cwrs yn help i godi hyder ac i chwilio am waith.

Dywedodd Claire Waters, swyddog datblygu'r Prince's Trust yng Nghaernarfon: "Nid yw hyn o anghenraid yn ail gyfle iddynt, yn aml iawn dyma eu cyfle cyntaf ac mae'n hynod o bwysig iddynt fagu hyder a datblygu sgiliau defnyddiol".

Yn GISDA rydym yn sicr wedi gweld newid mawr yn y bobl ifanc sydd wedi bod ar y cwrs ac mae rhai wedi mynd yn eu blaenau i ddilyn cwrs coleg tra bo rhai eraill wedi cael swydd llawn amser.

**Seremoni wobrwyo'r Prince's Trust**

Llongyfarchiadau mawr i chi gyd ac rydym yn gobeithio parhau'r bartneriaeth lwyddiannus gyda Prince's Trust yn y dyfodol.

**Lleol i Mi**

Mae rhai o'n pobl ifanc wedi bod yn cydweithio â Ffion Miles o'r BBC i greu dyddiadur digidol a fydd yn ymddangos ar eitem Lleol I Mi ar eu gwefan. Mae'n gyfle i'r bobl ifanc gyfleu yr hyn sy'n digwydd yn eu bywydau o ddydd i ddydd drwy gyfrwng lluniau ffotograffig.

**Cynllun Teulu**

I groesawu Iola fel Rheolwraig newydd ac i ffarwelio â Glenys, aeth criw o famau ifanc i fowlio deg yng Nglasfryn.

**Tŷ Buddug**

Diolch i'n cynllunydd cartref personol, Gwyneth Maycox, mae gennym bellach ystafell gyfforddus i gwrdd â'n defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r Parlwr Bach yn berffaith ar gyfer sesiynau cyfeirio, cyfarfodydd neu i alw mewn am sgwrs a phaned.

## Cystadleuaeth Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| F | A | F | I | E | I | Z | F | E | R | G | F |
| B | S | L | E | G | N | A | U | S | M | E | R |
| U | E | F | R | G | L | E | N | E | N | S | T |
| N | I | C | R | W | T | R | D | R | F | I | H |
| X | M | D | B | L | D | I | I | E | N | O | Q |
| N | R | I | T | D | F | O | E | N | O | N | B |
| H | S | P | D | D | Y | W | L | E | H | C | U |
| E | T | R | X | M | G | B | J | F | G | O | G |
| S | L | L | A | N | A | S | O | H | F | R | A |

Chwiliwch am y geiriau cudd:
Sion Corn
Rwdolff
Seren
Stabl
Bugail
Coeden
Angel
Hosan
Twrci
Uchelwydd

**£5.00 i'r enillydd**

## Parti Dolig

12 Rhagfyr 7yh, Glasfryn
Noson heb y plant
Bowlio Deg a Chinio 'Dolig
Am fwy o wybodaeth holwch eich gweithiwr allweddol
Croeso i aelodau staff ymuno'n yr hwyl

## Mynd i Weld Sion Corn

Mae'r Cynllun Teulu yn trefnu trip i fynd i weld Sion Corn ym Mhortmeirion.
Amser a Dyddiad i'w drefnu